YR ATODLEN

Amodau

RHAN 3

Amodau eraill

Gostegu sŵn

Cymeradwyaeth berthnasol ar gyfer gweithgaredd newydd

31.—(1) Pan gynigir cynnal gweithgaredd newydd ar y tir rhaid i'r datblygwr gyflwyno astudiaeth sŵn i'r awdurdod cynllunio lleol a chael cymeradwyaeth berthnasol cyn y caiff y gweithgaredd newydd gychwyn.

(2) Rhaid i'r astudiaeth sŵn amlinellu a fydd y gweithgaredd newydd yn peri newid negyddol i gymeriad acwstig yr allbwn sŵn o'r tir.

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr "gweithgaredd newydd" yw—

(a) codi adeilad newydd,

(b) ychwanegu arwyneb caled newydd,

(c) ychwanegu cyfarpar neu beiriannau newydd, neu

(d) pan fo adeilad neu arwyneb caled presennol i'w ddefnyddio at ddiben gwahanol,

pan fo'r rhain wedi digwydd ar ôl cael y gymeradwyaeth berthnasol sy'n ofynnol gan baragraff 17(2).

(4) Yn is-baragraff (2), mae newid i gymeriad acwstig yn cynnwys cynnydd o ran—

(a) sŵn amledd isel;

(b) sŵn tonaidd;

(c) ysbeidiolrwydd sŵn.